

Hawdd ei ddeall

# Cyngor Celfyddydau Cymru

## Cynllun 2018 i 2023



Llun: Tŷ Pawb, Wrecsam gan James Morris

Fersiwn hawdd ei ddeall yw hwn o **Gynllun Corfforaethol 2018 hyd 2023 Cyngor Celfyddydau Cymru.**

**Rhagfyr 2018**



Cyngor Celfyddydau Cymru  
Arts Council of Wales



Noddir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Sponsored by  
**Welsh Government**



Yn dyfarnu arian / Awarding funds from  
**Y LOTERI GENEDLAETHOL**  
**THE NATIONAL LOTTERY®**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Fersiwn hawdd ei ddeall yw hwn. Mae'r geiriau a'r hyn maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall. Efallai na fedrwch chi ddarllen a deall y ddogfen hon heb help. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu

Efallai bydd rhai geiriau yn anodd i'w deall. Mae'r rhain wedi cael eu hysgrifennu mewn **glas trwm**. Dywedir beth maen nhw'n feddwl mewn bocs o dan y gair.

Os bydd y gair anodd yn cael ei ddefnyddio eto bydd yn cael ei ysgrifennu mewn **glas cyffredin**. Gallwch edrych beth mae'n feddwl yn **Geiriau anodd** ar dudalen 27.

Pan fydd y ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Cyngor Celfyddydau Cymru**:



Cyngor Celfyddydau Cymru  
Plas Bute  
Caerdydd, CF10 5AL



Ffôn: 0845 8734 900



SMS: 07797800504

Dim ond talu am y pris arferol am neges



E-bost: [gwybodaeth@celf.cymru](mailto:gwybodaeth@celf.cymru)



Gwefan: [www.celf.cymru](http://www.celf.cymru)



Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**.

<b>Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon.....</b>	<b>2</b>
<b>Ynglŷn â ni.....</b>	<b>4</b>
<b>Y pethau rydyn ni'n eu gwneud.....</b>	<b>6</b>
<b>Y pethau wnaethon ni rhwng 2013 a 2018.....</b>	<b>9</b>
<b>Y pethau sy'n bwysig i ni.....</b>	<b>11</b>
<b>Neges gan Gadeirydd Cyngor Celfyddydau Cymru Phil George.....</b>	<b>12</b>
<b>Neges gan Brif Weithredwr Cyngor Celfyddydau Cymru – Nick Capaldi.....</b>	<b>14</b>
<b>Ein nodau.....</b>	<b>17</b>
<b>Ein cynllun.....</b>	<b>19</b>
<b>Y pethau ddywedodd pobl yng Nghymru am y celfyddydau.....</b>	<b>24</b>
<b>Y gwaith rydyn ni'n ei wneud.....</b>	<b>25</b>
<b>Geiriau anodd.....</b>	<b>27</b>

# Ynglŷn â ni



Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn **gorff cyhoeddus**.



Mae **cyrff cyhoeddus** yn fudiadau sy'n cael arian gan Lywodraeth Cymru i redeg gwasanaethau i bobl yng Nghymru.

ARIENNIR GAN  
Y LOTERI  
LOTTERY FUNDED



Rydyn ni'n cael arian gan y Lotri Cenedlaethol hefyd.

Rydyn ni'n rhoi cefnogaeth i'r **celfyddydau** yng Nghymru gyda'r arian hwn. Mae'r **celfyddydau** yn meddwl pethau fel:



- Y theatr
- Cerddoriaeth
- Ysgrifennu – fel llyfrau, storïau neu farddoniaeth
- Crefftau – fel gwnio neu wau
- Celfyddyd – fel paentio neu wneud pethau allan o glai
- Perfformio – fel dawnsio neu ganu



Bob dydd y mae pobl yng Nghymru yn mwynhau ac yn cymryd rhan yn y [celfyddydau](#).



Rydyn ni'n meddwl bod y [celfyddydau](#) yn rhan bwysig iawn o wneud bywydau pobl yn well

# Y pethau rydyn ni'n eu gwneud



Rydyn ni'n helpu i gefnogi'r **celfyddyddau** yng Nghymru ac yn eu helpu i ddatblygu.



Rydyn ni'n gwneud hyn trwy ddefnyddio'r arian sy'n cael ei roi i ni gan **Lywodraeth Cymru** a'r **Lotri Genedlaethol**.



Dyma rai o'r ffyrdd rydyn ni'n cefnogi'r **celfyddyddau** yng Nghymru:



- Rydyn ni'n helpu i ddod o hyd i bobl sydd am gymryd rhan yn y **celfyddyddau** a'u cefnogi.



- Rydyn ni'n cefnogi defnyddio Cymraeg a Saesneg.



- Rydyn ni'n helpu artistiaid yng Nghymru i gael eu talu am eu gwaith

- Rydyn ni'n cefnogi **cydraddoldeb** ac **amrywioldeb**.



Mae **cydraddoldeb** yn meddwl trin pobl yn deg a gwneud yn siŵr eu bod yn cael yr un cyfleoedd mewn bywyd.



Mae **amrywioldeb** yn meddwl nad yw pobl i gyd yr un fath. Er enghraifft, mae pobl yn dod o wahanol gefndiroedd, yn gwneud gwahanol ddewisiadau neu maen nhw'n dda am wahanol bethau.



- Rydyn ni'n cefnogi mudiadau sy'n gweithio yn y **celfyddyddau**.



- Rydyn ni'n gweithio gyda phobl ifainc i'w helpu i gymryd rhan yn y **celfyddyddau**.



- Rydyn ni'n helpu i wneud yn siŵr bod llawer o wahanol ffyrdd i bobl fwynhau'r **celfyddyddau** yng Nghymru



- Rydyn ni'n helpu celfyddyd Cymru ac artistiaid Cymru i ddod yn adnabyddus ar draws y byd.



- Rydyn ni'n deall ei bod hi'n bwysig cefnogi'r [celfyddydau](#) i bara am amser maith.



Gwyliwch ein fideo i weld pam rydyn ni'n meddwl bod y celfyddydau yn bwysig: [www.arts.wales/amdanom-ni](http://www.arts.wales/amdanom-ni)



# Y pethau wnaethon ni rhwng 2013 a 2018



Fe warion ni 264 miliwn o bunnau yn cefnogi'r **celfyddyau** yng Nghymru.



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Daeth yr arian hwn gan Lywodraeth Cymru a'r Lotri Genedlaethol.


ARIENNIR GAN  
Y LOTERI  
LOTTERY FUNDED 



Fe gefnogon ni dros 400 mil o ddigwyddiadau **celfyddyd** yng Nghymru.



Daeth bron i 20 miliwn o bobl i'n digwyddiadau.



Cymerodd dros bedair miliwn o bobl ran yn ein digwyddiadau.



Fe gefnogon ni ddigwyddiadau **celfyddyd** mewn cymunedau lleol.



Fe anfonon ni dros 7000 o geisiadau yn gofyn am arian i gefnogi'r **celfyddyddau** yng Nghymru.



Fe helpon ni bobl i brynu celfyddyd a chrefftau trwy fenthyc arian iddyn nhw.



Fe roddon ni arian i dros 30 prosiect i helpu i adeiladu lleoedd y gall pobl gymryd rhan yn y **celfyddyddau**.



Fe roddon ni 70 o **Ddyfarniadau Cymru Greadigol** i artistiaid yng Nghymru i'w helpu â'u gwaith.

# Y pethau sy'n bwysig i ni



1. Mae arnon ni eisiau cefnogi'r **celfyddyddau** gorau yng Nghymru.



2. Mae arnon ni eisiau i gymaint o bobl â phosibl fwynhau'r **celfyddyddau** yng Nghymru.



3. Mae arnon ni eisiau gwneud yn siŵr bod Cyngor y Celfyddydau yn cael ei redeg yn dda.



4. Mae arnon ni eisiau i'r pethau rydyn ni'n wneud fod yn bwysig i'n staff.



5. Mae arnon ni eisiau gwneud yn siŵr ein bod yn cynllunio ar gyfer y dyfodol.



6. Rydyn ni'n credu y gall y **celfyddyddau** helpu i wneud Cymru yn well lle i fyw ynddo.

# Neges gan Gadeirydd Cyngor Celfyddydau Cymru – Phil George



Y **Cadeirydd** yw'r person sydd â gofal am y Cyngor. Mae'n edrych sut mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gwario'r arian gan Lywodraeth Cymru a'r Lotri Genedlaethol.



Fe siaradon ni â phobl ar draws Cymru ynghylch y pethau y dylen ni fod yn eu gwneud. Fe ddefnyddion ni y pethau ddywedodd pobl wrthyn ni i'n helpu i ysgrifennu'r cynllun hwn.



Mae gan ein cynllun ddau brif nod:



1. Cefnogi'r **celfyddydau** yng Nghymru i fod y gorau y gallan nhw fod.



2. Gwneud yn siŵr bod gan bawb yng Nghymru gyfle i fwynhau a chymryd rhan yn y **celfyddydau**.



Mae arnon ni eisiau i bobl wybod pa mor bwysig yw'r **celfyddydau**.



Mae arnon ni eisiau i lawer o wahanol bobl gymryd rhan yn y [celfyddydau](#). Er enghraifft, pobl anabl neu pobl o gymunedau **BAME**.



Mae **BAME** yn meddwl pobl sy'n ddu, yn Asiaidd neu o leiafrifoedd ethnig. Efallai eu bod nhw'n dod o wlad wahanol neu bod ganddyn nhw liw croen gwahanol.



Fe ofynnon ni i bobl rannu eu storïau am y [celfyddydau](#) yng Nghymru.



Gall fod yn anodd gweithio yn y [celfyddydau](#) oherwydd does dim digon o arian.



Nid yw pobl bob amser yn cytuno ynglŷn â'r ffordd y dylai arian gael ei wario ar y [celfyddydau](#).



Rydyn ni'n gobeithio y bydd pobl yn hoffi ein cynllun ar gyfer dyfodol y [celfyddydau](#) yng Nghymru.



## Neges gan Brif Weithredwr Cyngor Celfyddydau Cymru – Nick Capaldi



Y **Prif Weithredwr** yw'r person sydd â gofal am y staff a'r gwaith maen nhw'n ei wneud yng Nghyngor Celfyddydau Cymru.



Ein nod bob amser yw gwneud celfyddyd sydd ar ei gorau a helpu mwy o bobl i fwynhau **celfyddydau**.



Rydyn ni'n meddwl bod angen gwneud llawer mwy i wneud yn siŵr y gall mwy o bobl fwynhau a chymryd rhan yn y **celfyddydau**.



Does dim digon o **gydraddoldeb** ac **amrywioldeb** yn y **celfyddydau**. Dydy hyn ddim yn deg. Mae arnon ni eisiau newid hyn.



Mae arnon ni eisiau ei gwneud hi'n haws i bobl fwynhau a chymryd rhan yn y **celfyddydau**.



Mae arnon ni eisiau i bobl sy'n gweithio yn y [celfyddydau](#) gael y medrau iawn



Mae arnon ni eisiau gwneud yn siŵr ein bod ni'n gweithio'n dda mewn cymunedau



Mae arnon ni eisiau gwneud yn siŵr bod y gwaith rydyn ni'n ei wneud yn para am amser maith.



Fe fyddwn yn rhoi arian a chefnogaeth i helpu artistiaid a mudiadau [celfyddyd](#).



Fe fyddwn yn gwneud mwy o waith gyda phobl anabl a phobl o gymunedau du, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig ([BAME](#)).



Fe fyddwn yn cefnogi mwy o [gelfyddyd](#) trwy ddefnyddio'r iaith Gymraeg.



Fe fyddwn yn cefnogi pobl i weithio gyda gwledydd eraill o amgylch y byd



Fe fyddwn yn gwneud mwy o waith gyda phlant a phobl ifainc.



Fe fyddwn yn gwneud cynllun newydd ynglŷn â'r **celfyddyddau** a iechyd.



Bob blwyddyn fe fyddwn ni'n ysgrifennu cynllun i ddweud wrth bobl beth wnaethon ni'r flwyddyn honno. A beth rydyn ni'n cynllunio i'w wneud y flwyddyn nesaf.



Mae arnon ni eisiau gweithio gydag artistiaid a mudiadau **celfyddydd** yng Nghymru.



Mae arnon ni eisiau gwneud y **celfyddyddau** yng Nghymru yn gryfach ac yn well.



# Ein nodau



## 1. Gwneud

Cefnogi pobl a mudiadau i wneud gwahanol fathau o gelfyddyd.



## 2. Cyrraedd

Helpu mwy o bobl i fwynhau a chymryd rhan yn y [celfyddydau](#).



## 3. Cynnal

Gwneud yn siŵr bod y [celfyddydau](#) yn para am amser maith yng Nghymru.

## Y pethau y mae'n rhaid i ni wneud i'n helpu i gyrraedd ein nodau



1. Gweithio gyda llawer o wahanol bobl ar draws Cymru.



2. Gwneud y **celfyddydau** yng Nghymru yn gryfach.



3. Gweithio gyda mudiadau eraill i'n helpu i gyrraedd ein nodau.

# Ein cynllun

## Y pethau rydyn ni'n mynd i'w gwneud



### 1. Defnyddio ein harian i wneud yn siŵr bod mwy o bobl yn gallu mwynhau a chymryd rhan yn y **celfyddyau**.



- Erbyn 2023 mae arnon ni eisiau i fwy o bobl fynd i ddigwyddiadau **celfyddyd**.



- Mae arnon ni eisiau i fwy o bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau **celfyddyd**



- Mae arnon ni eisiau i fwy o bobl fynd i'r theatr i weld digwyddiadau **celfyddyd** yn Gymraeg.

## 2. Mae arnon ni eisiau cael mwy o **gydraddoldeb** ac **amrywioldeb** yn y celfyddydau rydyn ni'n talu **amdanyn** nhw.



- Fe fyddwn yn gwneud yn siŵr bod ein gwaith i gyd yn cefnogi **cydraddoldeb** ac **amrywioldeb**.



- Erbyn 2023 mae arnon ni eisiau i fwy o bobl sydd heb fawr o arian fwynhau a chymryd rhan yn y **celfyddydau**.



- Fe fyddwn yn cefnogi mwy o artistiaid anabl.



- Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod mwy o bobl anabl a phobl o gymunedau **BAME** â gofal mewn mudiadau **celfyddyd**.



- Mae arnon ni eisiau i ddwywaith gymaint o bobl anabl a phobl o gymunedau **BAME** weithio yn y **celfyddydau**



- Fe fyddwn ni'n rhoi mwy o hyfforddiant i bobl o wahanol gefndiroedd.

### 3. Fe fyddwn ni'n helpu'r **celfyddyddau** yng Nghymru i fod y gorau y gallan nhw fod.



- Mae arnon ni eisiau i artistiaid ennill mwy o arian.



- Erbyn 2023 mae arnon i eisiau i artistiaid o Gymru gymryd rhan mewn 12 o ddigwyddiadau **celfyddyd** ar draws y byd.



- Mae arnon ni eisiau i fwy o gwmnïau **celfyddyd** o Gymru weithio yn Tsieina



- Fe fyddwn ni'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru a mudiadau eraill i ddod o hyd i ffyrdd eraill i gefnogi'r **celfyddyddau** yng Nghymru i weithio gyda Ewrop.



- Mae arnon ni eisiau i artistiaid a mudiadau **celfyddyd** yng Nghymru feddwl am weithio gyda gwledydd eraill.

#### 4. Mae arnon ni eisiau gwneud yn siŵr ein bod yn gwario arian yn y ffordd orau.



- Erbyn 2023 fe fyddwn ni wedi hyfforddi staff newydd i'n helpu i gyrraedd mwy o bobl.



- Fe fyddwn ni'n gweithio gyda mudiadau **celfyddyd** eraill i wneud yn siŵr bod y gweithgareddau **celfyddyd** rydyn ni'n talu amdany'n nhw o safon uchel




- Fe fyddwn ni'n helpu mwy o bobl i ddweud beth maen nhw'n ei feddwl am y digwyddiadau **celfyddyd** maen nhw'n mynd iddyn nhw neu'n cymryd rhan ynddyn nhw.



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

#### 5. Fe fyddwn yn gwneud yn siŵr ein bod yn dilyn y nodau sy'n cael eu gosod gan Lywodraeth Cymru.



- Fe fyddwn ni'n ysgrifennu adroddiadau am y pethau rydyn ni'n eu gwneud.

- Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr ein bod yn gweithio tuag at saith nod **lles** Llywodraeth Cymru.



Mae **lles** yn meddwl bod person yn hapus, yn iach ac yn gyfforddus gyda'i fywyd a'r pethau mae'n ei wneud.



- Fe fyddwn ni'n gweithio gyda mudiadau eraill.



- Fe fyddwn ni'n ysgrifennu cynllun am y **celfyddydau** a iechyd.



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Fe fyddwn ni'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru ynghylch:



1. Gweithio gyda gwledydd eraill



2. Pobl yn ymweld â Chymru



3. **Diwydiannau Creadigol**

Mae **Diwydiannau Creadigol** yn gwmnïau sy'n gweithio yn y **celfyddydau**, mewn dylunio, cyfrifiaduron neu ffilm.

# Y pethau ddywedodd pobl yng Nghymru am y celfyddydau



Fe ofynnwn ni i'r ysgrifennwr Gary Raymond i siarad â phobl yng Nghymru am y [celfyddydau](#).



Fe rannon nhw eu storïau ynglŷn â pham y mae'r [celfyddydau](#) yn bwysig iddyn nhw.



Fe siaradon nhw am y ffordd yr oedd cymryd rhan yn y [celfyddydau](#) wedi newid eu bywydau.



Siaradodd rhai ohonyn nhw ynglŷn â pham y mae ar lawer o bobl angen cymryd rhan yn y [celfyddydau](#). Er enghraifft, menywod, pobl anabl, pobl o gymunedau [BAME](#) neu bobl sy'n siarad Cymraeg.



# Y gwaith rydyn ni'n ei wneud



- Rydyn ni'n cefnogi gweithgareddau **celfyddyd** er mwyn i bobl fwynhau a chymryd rhan yn **y celfyddydau**.



- Rydyn ni'n rhoi arian i brosiectau sy'n cefnogi'r **celfyddyddau** yng Nghymru.



- Rydyn ni'n rhoi gwybodaeth a chyngor ynglŷn â'r **celfyddyddau**.



- Rydyn ni'n gwneud yn siŵr bod pobl yn gwybod am yr holl weithgareddau **celfyddyd** yng Nghymru.



- Rydyn ni'n helpu i godi arian ar gyfer y **celfyddyddau** yng Nghymru.



- Rydyn ni'n cefnogi prosiectau i roi cynnig ar bethau newydd yn y **celfyddyddau**. Ac i ddod o hyd i ffyrdd newydd i bobl fwynhau a chymryd rhan yn y **celfyddyddau**.



- Rydyn ni'n gwneud yn siŵr bod pobl a mudiadau yn deall pa mor bwysig yw'r **celfyddyddau**.



- Rydyn ni'n siarad â phobl o amgylch y byd am y **celfyddyddau** yng Nghymru.



- Rydyn ni'n cefnogi'r **celfyddyddau** mewn cymunedau lleol.



Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth am y pethau rydyn ni'n wneud bob blwyddyn yn ein **Cynllun Gweithredol**.

# Geiriau anodd

## Amrywioldeb

Mae amrywioldeb yn meddwl nad yw pobl i gyd yr un fath. Er enghraifft, mae pobl yn dod o wahanol gefndiroedd, yn gwneud gwahanol ddewisiadau neu maen nhw'n dda am wahanol bethau.

## BAME

Mae BAME yn meddwl pobl sy'n ddu, yn Asiaidd neu o leiafrifoedd ethnig. Efallai eu bod nhw'n dod o wlad wahanol neu bod ganddyn nhw liw croen gwahanol.

## Cadeirydd

Y Cadeirydd yw'r person sydd â gofal am y Cyngor. Mae'n edrych sut mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gwario'r arian gan Lywodraeth Cymru a'r Lotri Genedlaethol.

## Celfyddydau

Mae'r celfyddydau yn meddwl pethau fel:

- Y theatr
- Cerddoriaeth
- Ysgrifennu – fel llyfrau, storïau neu farddoniaeth
- Crefftau – fel gwnïo neu wau
- Celfyddyd – fel paentio neu wneud pethau allan o glai
- Perfformio – fel dawnsio neu ganu.

## Cydraddoldeb

Mae cydraddoldeb yn meddwl trin pobl yn deg a gwneud yn siŵr eu bod yn cael yr un cyfleoedd mewn bywyd.

## Cyrff cyhoeddus

Mae cyrff cyhoeddus yn fudiadau sy'n cael arian gan Lywodraeth Cymru i redeg gwasanaethau i bobl yng Nghymru.

## **Diwydiannau Creadigol**

Mae Diwydiannau Creadigol yn gwmnïau sy'n gweithio yn y celfyddydau, mewn dylunio, cyfrifiaduron neu ffilm.

## **Lles**

Mae lles yn meddwl bod person yn hapus, yn iach ac yn gyfforddus gyda'i fywyd a'r pethau mae'n ei wneud.

## **Prif Weithredw**

Y Prif Weithredwr yw'r person sydd â gofal am y staff a'r gwaith maen nhw'n ei wneud yng Nghyngor Celfyddydau Cymru.